WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd – Adolygiad Dilynol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1703A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Katherine Simmons, Ron Price, Alan Hughes a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd â llai o adnoddau, ond mae angen cryfhau cynlluniau gwasanaethau a threfniadau rheoli perfformiad.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd â llai o adnoddau, ond mae angen cryfhau cynlluniau gwasanaethau a threfniadau rheoli perfformiad 6

Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond mae angen cryfhau cynlluniau gwasanaethau a threfniadau rheoli perfformiad 6

Mae'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers ein hadolygiad blaenorol; fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n darparu'r gwasanaethau hyn i wneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael 7

Mae angen cryfhau trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor 9

Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, Hydref 2014. 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu

1 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol **Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion** (gweler Atodiad 1 ar gyfer crynodeb o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol o'r adroddiad hwnnw). Digwyddodd y gwaith maes ar gyfer ein hadolygiad diweddaraf rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2019. Roedd yr adolygiad yn rhoi sylw dilynol i'r themâu a'r gwersi a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2014. Fe wnaeth ein hadolygiad roi ystyriaeth hefyd i effaith gostyngiadau yng nghyllid llywodraeth leol ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir gan y Cyngor ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny.

### Pam fod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn bwysig

2 Mae gan gynghorau ddyletswyddau niferus lle mae iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn ac mae dinasyddion yn rhoi gwerth mawr ar lawer o'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir. Ar ben hynny, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd, llesiant a diogelwch trigolion Cymru ac ymwelwyr â'r wlad.

3 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cwmpasu ystod o faterion, megis diogelwch bwyd, rheoli plâu, rheoli cŵn, tai a lleihau achosion ac effeithiau llygredd aer.

### Sut yr aethom ati i gynnal yr adolygiad

4 Fe wnaethom gyfweld â detholiad o swyddogion a'r Aelod Arweiniol dros wasanaethau iechyd yr amgylchedd. Fe wnaethom adolygu dogfennaeth berthnasol hefyd.

### Canfyddiad ar y cyfan

5 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: a yw gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn y Cyngor yn dal i gyflawni ei rwymedigaethau statudol â llai o adnoddau?

6 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor o'r farn ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd â llai o adnoddau, ond bod angen cryfhau cynlluniau gwasanaethau a threfniadau rheoli perfformiad. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond nid yw'n datgan hyn yn eglur yn ei gynllun gwasanaethau;
- mae'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers ein hadolygiad blaenorol: mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n darparu'r gwasanaethau hyn i wneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael; ac
- mae angen cryfhau trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor.

## Cynigion ar gyfer Gwella

### Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** |
|---|
| Mae angen i'r Cyngor wneud y canlynol: |
| **Cynllunio Busnes**<br>**C1** Cryfhau'r broses cynllunio busnes trwy:<br>• sicrhau bod effaith galw uwch ar y gofynion o ran adnoddau a'r ymateb i hynny wedi'u nodi'n glir yng nghynlluniau'r gwasanaethau; ac<br>• ystyried lleihau niferoedd y cynlluniau i un cynllun gwasanaethau. |
| **Rheoli Perfformiad**<br>**C2** Cryfhau trefniadau rheoli perfformiad trwy adolygu'r wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i asesu perfformiad ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd. Sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn ategu asesiad llawn o berfformiad. |
| **Trosolwg gan Gynghorwyr**<br>**C3** Sicrhau bod cynghorwyr yn cael y cyfle i graffu ar berfformiad gwasanaethau ac effaith gostyngiadau yn y gyllideb a'u herio. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd â llai o adnoddau, ond mae angen cryfhau cynlluniau gwasanaethau a threfniadau rheoli perfformiad

### Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond nid yw'n datgan hyn yn eglur yn ei gynllun gwasanaethau

7 Un o'r argymhellion o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2014 oedd y dylai cynghorau nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd eu cynghorau. Canfuom dystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried ei gyfrifoldebau statudol o fewn prosesau cynllunio busnes:

- yn unol â Deddf Diogelwch Bwyd 1990, cynhyrchodd y Cyngor ei Gynllun Gwasanaeth Bwyd blynyddol ar gyfer 2018-19 ym mis Rhagfyr 2018.[1] Mae hon yn ddogfen gynhwysfawr sy'n nodi cyfrifoldebau statudol perthnasol, galwadau ar y gwasanaeth, dyraniadau staff ac ariannol yn seiliedig ar amcangyfrif o'r gofynion ac adolygiad o berfformiad yn erbyn cynllun y flwyddyn flaenorol.
- islaw prif gynllun y Cyngor ar gyfer gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd ceir tri chynllun gwaith ategol:
  - cynllun pum mlynedd Iechyd yr Amgylchedd a Thai
  - cynllun blynyddol Bwyd a Ffermio
  - cynllun blynyddol Trwyddedu.
- mae cynlluniau gwaith Iechyd yr Amgylchedd a Thai a Bwyd a Ffermio yn cysylltu gweithgarwch â gofynion statudol. Mae cynllun gwaith Iechyd yr Amgylchedd a Thai hefyd yn cynnwys asesiad o weithgarwch arfaethedig yn erbyn Safonau Ymarfer Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru. [2] Mae'r

[1] Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, **Cynllun y Gwasanaeth Bwyd 2018-2019**, Rhagfyr 2018.

[2] Mae'r Safonau Ymarfer ar gyfer Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru, a ddatblygwyd gan Benaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, yn offeryn i roi cymorth i ddarparu, datblygu ac adolygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Maent yn nodi'r meini prawf y gall rheolwyr gwasanaethau ac eraill eu defnyddio i asesu eu gwasanaeth ar draws y meysydd allweddol sy'n rhan o'r cyfrifoldeb am iechyd yr amgylchedd.

Cyngor o’r farn y bydd yn cyrraedd y lefel ‘ofynnol’ neu ‘well’ ym mhob maes o fewn y rhan hon o'r gwasanaeth.

8 Mae’r Cyngor wedi ystyried ei gyfrifoldebau statudol ac mae’n rhoi asesiad o’r galw a’r adnoddau ar gyfer meysydd a gwmpesir gan ei Gynllun Gwasanaeth Bwyd. Fodd bynnag, mae’n llai eglur o ran nodi i ba raddau y gall gyflawni rhwymedigaethau statudol ar draws y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Dylai’r Cyngor ystyried ai bod â dau gynllun gwasanaeth a thri chynllun gwaith, a’r rheiny’n cwmpasu cyfnodau gwahanol ac yn defnyddio cynnwys a fformatau gwahanol, yw’r ffordd fwyaf effeithiol o gynllunio a monitro’r modd y darperir y gwasanaeth.

## Mae’r adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers ein hadolygiad blaenorol: mae’r Cyngor wedi gwneud newidiadau i’r ffordd y mae’n darparu’r gwasanaethau hyn i wneud defnydd mwy effeithiol o’r adnoddau sydd ar gael

9 Mae nifer y staff sy’n gweithio yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi gostwng ers ein hadolygiad blaenorol yn 2014. Bu gostyngiad o 3.7 swyddog cyfwerth ag amser llawn (o 29.15 yn 2014 i 25.49 yn 2018), gan gynnwys tri Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cymwysedig.

10 Cododd y tîm Archwilio Mewnol effaith llai o staff ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas ag arolygiadau hylendid bwyd yn ei archwiliad Diogelwch Bwyd, yr adroddwyd arno ym mis Rhagfyr 2017. Hefyd, fe wnaeth adroddiad dilynol yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ym mis Medi 2018[3], gyfeiriadau tebyg. Mae’r Cyngor wedi profi anawsterau o ran recriwtio i rolau Iechyd yr Amgylchedd arbenigol pan fo staff wedi symud ymlaen.

11 Mae’r gyllideb ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi gostwng o £1.18 miliwn yn 2013-14 i £1.08 miliwn yn 2018-19. Bu gostyngiad o 13% mewn termau real yn yr alldro refeniw rhwng 2013-14 a 2017-2018. Er y bu gostyngiad yn y gyllideb, bu tanwariant cyson yn erbyn y gyllideb ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd hefyd. Mae hyn i’w briodoli’n rhannol i’r ffaith bod y gyllideb yn seiliedig ar nifer llawn o staff ym mhen uchaf y raddfa gyflog. Yn gynnar ym mhob blwyddyn ariannol mae’r gwasanaeth yn adolygu ei gyllideb i ganfod unrhyw orddarpariaeth a gall y cyllid ychwanegol gael ei ailddosbarthu wedyn gan y Pennaeth Gwasanaeth.

12 Er ei bod yn rhy gynnar asesu’r effaith mewn rhai meysydd, mae’r Cyngor wedi gweithredu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys:

[3] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, **Adroddiad ar y Gwasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 6 – 10 Chwefror 2017, Cynllun Gweithredu wedi’i Ddiweddaru**, Medi 2018.

- yn 2016 fe wnaeth y Cyngor ailstrwythuro gwasanaethau iechyd yr amgylchedd gan gyflwyno model 'Diogelu'r Cyhoedd'. Cafodd hyn wared ar rywfaint o'r rhaniad rhwng safona masnachu ac iechyd yr amgylchedd. Bellach mae tri thîm yn cyflawni swyddogaethau iechyd yr amgylchedd: Bwyd a Ffermio, Iechyd yr Amgylchedd a Thai, a Safonau Masnachu a Thrwyddedu. Y tîm Cynllunio sydd bellach yn gyfrifol am dir halogedig (ac nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr adolygiad hwn).
- fel rhan o ailstrwythuro'r Tîm Bwyd a Ffermio, mae'r holl Swyddogion Hylendid Bwyd bellach yn meddu ar amrywiaeth o sgiliau ac wedi'u hawdurdodi i gynnal arolygiadau Safonau Bwyd. Mae'r Swyddogion Safonau Masnachu sy'n gweithio o fewn y tîm yn gwneud cwrs trosi a fydd yn eu galluogi i gwblhau arolygiadau hylendid bwyd ar ôl cwblhau'r cwrs. Bydd hyn yn gwneud y gwasanaeth yn fwy cydnerth yn y dyfodol.
- fe wnaeth y Cyngor roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth Rheoli Plâu yn 2015 ac mae'r Gwasanaeth Warden Cŵn bellach yn cael ei ddarparu gan gontractwr.
- mae'r Cyngor yn cyfranogi yn y Cynllun Awdurdod Sylfaenol, gyda nifer o bartneriaethau bellach wedi'u sefydlu ac yn darparu incwm ar gyfer y Cyngor.[4]
- mae'r Cyngor wedi adolygu ac naill ai wedi cyflwyno neu gynyddu ffioedd a thaliadau i greu rhagor o incwm. Mae enghreifftiau o daliadau sydd wedi'u cynyddu'n cynnwys cyngor trwyddedu cyn ymgeisio a'r gwasanaeth cŵn strae.
- mae'r Cyngor wedi ceisio defnyddio datrysiadau digidol i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon. Mae'r Cyngor wedi dechrau cyflwyno trefn gweithio ystwyth o fewn y gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio platfformau digidol i wella gwasanaeth cwsmeriaid gan ddefnyddio'r Ap Sŵn i anfon recordiadau sŵn yn uniongyrchol at swyddogion. Ym mis Ebrill 2016 fe wnaeth gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd drosglwyddo'i ddata safleoedd i gronfa ddata newydd. Fe gosodd hyn rai materion o ran casglu a mewnbynnu data ac mae diweddaru'r gronfa ddata'n broses barhaus. Fodd bynnag, unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn, bydd y gronfa ddata hon yn helpu i leihau'r prosesau gweinyddol gan ganiatáu rhagor o amser i gwblhau arolygiadau.

[4] Lansiwyd y Cynllun Awdurdod Sylfaenol yn 2009 i wella'r modd y mae awdurdodau lleol yn gorfodi trefniadau rheoleiddio. Mae'n cynnig cyfle i fusnesau ffurfio partneriaeth a gydnabyddir yn gyfreithiol gydag awdurdod lleol (yr awdurdod sylfaenol). Trwy'r partneriaethau hyn, mae'r awdurdod sylfaenol yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol eraill ei ystyried wrth gwblhau arolygiadau neu ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i fusnesau gael cyngor rheoleiddiol sicr, cyson sy'n gwneud cydymffurfio â rheoliadau iechyd yr amgylchedd, safonau masnachu, trwyddedu a diogelwch tân yn symlach.

Ffynhonnell: Gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

## Mae angen cryfhau trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor

13 Un o'r argymhellion yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2014 oedd adnabod, casglu a dadansoddi data ariannol a data ar berfformiad a galw/angen lle mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn (Argymhelliad 5, Atodiad 1). Mae cynllun gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yn cynnwys dangosyddion perfformiad a chamau gweithredu gwasanaethau. Mae targedau a data perfformiad chwarterol wedi cael eu cynnwys ar gyfer rhai dangosyddion, ond mae rhai targedau yn eisiau ac mae'r data ar berfformiad yn anghyflawn ar gyfer camau gweithredu gwasanaethau.

14 Fe wnaeth swyddogion yng ngwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd amlygu eu bod yn trafod perfformiad y gwasanaeth ac effaith y galw uwch ar y gwasanaeth/yr ymateb iddo gan y gwasanaeth yn rheolaidd trwy gyfarfodydd tîm ac yn uniongyrchol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth. Fodd bynnag, er bod data sy'n nodi'r galw posibl nid oes trafodaeth am effaith hyn ar ddarparu adnoddau yng nghynllun gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd na chynlluniau gwaith ategol y gwasanaeth.

15 Mae rhai dangosyddion iechyd yr amgylchedd o gymorth i gyflawni Cynllun Cyngor Wrecsam 2018-2022. Mae'r rhain yn cynnwys: canran y tai rhent preifat yn y fwrdeistref sirol sydd wedi'u cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru, a chanran y cartrefi amlfeddiannaeth sydd wedi cael trwyddedau dan gynlluniau trwyddedu gorfodol ac ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn wedi'i gynnwys yn y prif gynllun gwasanaethau.

16 Mae'r Cyngor yn hyderus ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol. Fodd bynnag, yn ei fesurau ehangach ar gyfer perfformiad gwasanaethau, mae perfformiad mewn rhai meysydd wedi bod yn amrywiol. Er enghraifft::

- Canfu ymweliad dilynol yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Medi 2018 fod 'diffyg o ran ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd a gwblhawyd yn unol â'r amlderau a ragnodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd'.[5]
- Roedd canran y sefydliadau Hylendid Bwyd a oedd yn 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd yn 98.82% yn 2016-17 (roedd y Cyngor yn gyntaf yng Nghymru) ac yn 90.31% (roedd y Cyngor yn 21ain yng Nghymru) yn 2017-18, gan ddangos gostyngiad amlwg mewn perfformiad. Er bod y Cynllun Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd 2018-19 yn awgrymu bod y sefyllfa hon wedi gwella.
- Mae gan y gwasanaeth darged i ddyroddi 90% o drwyddedau ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o fewn tri mis i dderbyn ceisiadau. Cyflawnodd ganran o 78% yn chwarter cyntaf 2018-19, 100% yn yr ail chwarter, 56% yn y trydydd chwarter a 92% yn y pedwerydd chwarter. Nid oes sylwebaeth yn y cynllun

[5] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, **Adroddiad ar y Gwasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 6 – 10 Chwefror 2017, Cynllun Gweithredu wedi'i Ddiweddaru**, Medi 2018.

sy'n nodi pam fod perfformiad yn is na'r targed yn y chwarter cyntaf a'r trydydd chwarter.

17 Cymysg yw trosolwg y Cyngor ar wella gwasanaethau i asesu effaith gostyngiadau yn y gyllideb. Fe wnaeth yr aelod o'r Bwrdd Gweithredol â chyfrifoldeb am Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd gymeradwyo Cynllun blynyddol y Gwasanaeth Bwyd 2018-19 ar ran y Cyngor ac mae'n cwrdd yn rheolaidd â'r Prif Swyddog a Phennaeth y Gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth wedi cael adolygiad archwilio mewnol. Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn cyflwyno'r adroddiadau hyn i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Roedd y ddau archwiliad diweddaraf mewn perthynas â'r Gwasanaeth Trwyddedu (Chwefror 2019) a Hylendid Bwyd (Rhagfyr 2017).

18 Fe wnaeth y Pwyllgor Craffu Cartrefi a'r Amgylchedd ystyried trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yn y Sector Rhentu Preifat ym mis Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, nid yw pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi rhoi unrhyw ystyriaeth ddiweddar arall i wasanaethau iechyd yr amgylchedd. Er enghraifft, byddem yn disgwyl i bwyllgorau craffu gael y cyfle i graffu ar adroddiadau Archwilio Mewnol, cynlluniau gwasanaethau a chynlluniau gwaith ategol gwasanaethau, ac adroddiadau ar gyflawni yn erbyn cynlluniau. Er bod y Cyngor yn cynnwys rhai dangosyddion perfformiad iechyd yr amgylchedd yn ei hunanwerthusiad 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', nid yw'r cynllun gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yn cael ei gyflwyno i unrhyw un o bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer trafodaeth na chraffu.

# Atodiad 1

Fel rhan o'i gyfres 'cyflawni â llai' o Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad – **Cyflawni â Llai: yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion**, ym mis Hydref 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad. Mae Tabl 1 yn crynhoi cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Tabl 1: crynodeb o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, 'Cyflawni â Llai: yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion' (Hydref 2014)

| Argymhelliad | Sylwebaeth Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Mae Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru wedi rhoi'r argymhelliad hwn ar waith trwy ddiwygio'r safonau.<br>Mae'r Cyngor wedi cynnwys asesiad o weithgarwch arfaethedig yn erbyn y Safonau Ymarfer o fewn ei gynllun gwaith Iechyd yr Amgylchedd a Thai. |
| A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Mae gweithdai hyfforddi wedi cael eu cynnal ar gyfer cynghorwyr mewn perthynas â Thrwyddedu a Thai Amlfeddiannaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.<br>Mae angen gwaith pellach i sicrhau y rhoddir cyfle i gynghorwyr graffu a berfformiad gwasanaethau ac effaith gostyngiadau yn y gyllideb a'u herio. |
| A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Mae'r Cyngor wedi datblygu'r broses ymgynghori â'r cyhoedd 'Penderfyniadau Anodd' lle mae holl doriadau/arbedion arfaethedig y Cyngor mewn gwasanaethau yn cael eu rhannu gyda defnyddwyr gwasanaethau. |

| Argymhelliad | Sylwebaeth Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o agweddau ar yr argymhelliad hwn fel a nodir ym mharagraffau 1, 2 a 6. |

| Argymhelliad | Sylwebaeth Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Mae gwaith y Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn mynd rhagddo; gweler paragraffau 7-12.<br>Mae'r Cyngor wedi dechrau archwilio sut i ddefnyddio gwybodaeth ddigidol a phlatfformau digidol i ddatblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd e.e. trwy gaffael system cronfa ddata TASCOMI ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, canfuom fod gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i roi pob agwedd ar yr argymhelliad hwn ar waith. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru